Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Pam mae ynni'n bwysig?

| | |
|---|---|
| **Amser ar gyfer y gweithgaredd** | **20 munud** |
| **Lleoliad** | **Awyr agored neu dan do** |

## Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar sut mae ffordd o fyw dynol yn dibynnu ar gynhyrchu ynni sydd, yn ei dro, yn effeithio ar yr hinsawdd.

Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei holl waith yw mynd ar drywydd rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd er mwyn gwella lles Cymru, ac i ddarparu dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| Y Dyniaethau | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Iechyd a Lles |
|---|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.<br>• **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.<br>• **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. |

## Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- defnyddio dull systematig o fanylu ar eu defnydd o ynni dyddiol.
- archwilio o ble mae'r ynni maen nhw'n ei ddefnyddio yn eu gweithgareddau dyddiol, yn dod.
- nodi a thrafod rhai o'r ffyrdd maen nhw'n dibynnu ar ddefnyddio ynni ar ddiwrnod cyffredin.
- ystyried a yw eu hanghenion ynni'n hanfodol i fywyd, yn ddefnyddiol neu'n foethusrwydd, i gefnogi eu dealltwriaeth o ffyrdd i leihau eu defnydd o ynni.

## Offer ac Adnoddau

- Nodyn Gwybodaeth – Ynni
- Deunyddiau ysgrifennu

## Beth i'w wneud

Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio orau yn dilyn o'n gêm geirfa datblygu gynaliadwy, lle trafodir rhai o'r derminoleg berthnasol.

- Dechreuwch y gweithgaredd drwy ofyn i'ch dysgwyr pa fathau o egni maen nhw'n eu defnyddio yn eu cartrefi a'u bywydau bob dydd. Mae'n debygol iawn y byddan nhw'n mynd yn uniongyrchol at ynni trydan neu nwy ond yn eu hannog i feddwl yn ehangach. Mae gwahanol fathau o ynni yn cynnwys ynni golau, ynni gwres, ynni mecanyddol, ynni disgyrchiant, ynni trydanol, ynni sain, ynni cemegol, niwclear neu ynni atomig. Defnyddiwch y **Nodyn gwybodaeth – Ynni**, i lenwi bylchau ac egluro ymhellach.
- Rhannwch eich grŵp yn barau neu grwpiau bach a gofynnwch iddynt gydweithio i lunio ac ysgrifennu rhestr o'r holl eitemau y maent yn eu defnyddio o ddydd i ddydd sy'n cael eu pweru gan ynni trydanol. Er enghraifft: oergell, dyfeisiau technolegol, ac ati. Anogwch nhw i feddwl drwy ddiwrnod cyffredin, o godi yn y bore i fynd i'r gwely yn y nos. Faint o offer a gwasanaethau trydanol maen nhw'n eu defnyddio? Gallai hyn gael ei gwblhau ar ffurf tabl – enghraifft isod:

| Amser | Gweithgaredd | Defnydd o Ynni |
|---|---|---|
| 7am | Codi | Larwm ar ffôn symudol, newid golau ymlaen. |
| 7.10am | Ymolchi a brwsio dannedd | Cawod drydan, rheilen dyweli gwres canolog, golau ystafell ymolchi, brws dannedd trydan. |
| 7.30am | Brecwast | Berwi tegell, gril ar gyfer tost, llaeth o oergell, edrych ar y cyfryngau cymdeithasol ar ddyfais symudol, rhoi llestri mewn peiriant golchi llestri. |

- Darparwch senario fod y cyflenwad ynni i'r ardal leol ar fin cael ei leihau'n ddifrifol - gallai hyn fod yn fenter newydd i helpu brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd.
- Gofynnwch i'ch dysgwyr wneud tair colofn ar ddarn glân o bapur a rhoi ar ben y colofnau hyn: hanfodol i fywyd, defnyddiol i'w cael a moethusrwydd.
- Rhowch dasg i'ch dysgwyr wrth fynd trwy eu rhestrau defnyddio ynni, gan ystyried a thrafod yn ofalus wrth fynd ymlaen. Gofynnwch iddyn nhw osod eu heitemau o dan y penawdau hyn.
- Mae angen i'ch dysgwyr berswadio a rhesymu i ddod i gonsensws cytûn.
- Mae angen iddyn nhw ystyried pwysigrwydd pob eitem wrth gynnal bywyd iach.
- Oes rhywbeth y gallen nhw ei wneud yn wahanol i leihau'r defnydd o ynni. Er enghraifft, oes rhaid i'r oergell fod yn hynod o oer? A oes modd iddyn nhw wisgo heb y golau ymlaen? Llai o amser ar sgwrsio ar-lein a mwy o amser tu allan yn cyfarfod ffrindiau?
- Gofynnwch i'ch dysgwyr restru'r eitemau ym mhob colofn yn nhrefn pwysigrwydd.
- Trafodwch y dewisiadau a'r rhesymu tu ôl iddynt. Pa mor debyg neu wahanol yw penderfyniadau pob pâr/grwpiau? Pa eitemau oedd yn cael eu hystyried fel y rhai mwyaf hanfodol i fywyd a pha rai oedd yn cael eu hystyried y lleiaf pwysig? Pam?
- Wrth i'r gweithgaredd ddirwyn i ben gofynnwch i'ch dysgwyr sut maen nhw, neu a allan nhw, arbed ynni gartref a mannau eraill? Pam mae'n bwysig gwneud hyn? Pa rwystrau sy'n gallu atal pobl i arbed ynni? Yng Nghymru, pa wahaniaethau diwylliannol neu ddaearyddol allai gael effaith? Er enghraifft, a fyddai aelwyd wledig yn defnyddio'r un faint o ynni ag aelwyd drefol? Pa wahaniaeth mae maint y teulu yn ei wneud? Beth os mae person yn yr aelwyd yn dibynnu ar offer meddygol sydd angen trydan? Trafodwch eu syniadau.

## Cwestiynau allweddol a awgrymir

- Pa fathau o ynni ydych chi'n eu defnyddio gartref?
- Sut mae'r ynni hwn yn cael ei gynhyrchu?
- Pa eitem drydanol sy'n cael ei defnyddio amlaf gennych chi a gan eich teulu?
- Oes unrhyw eitemau cartref trydanol sy'n eich helpu i fyw ffordd iach o fyw?
- Beth ydyn ni'n ei olygu wrth hanfodol/moethusrwydd/defnyddiol?
- Pam ydych chi wedi penderfynu eu rhoi yn y categorïau penodol?
- Beth allech chi ei wneud yn lle hynny os nad oedd gennych eitem xxx?

## Addasu ar gyfer gwahanol anghenion neu alluoedd

### Mwy o gymorth

- Darparu rhestr o eitemau trydanol defnydd dyddiol.
- Cwblhewch y gweithgaredd fel grŵp.

### Mwy o sialens

- Gall dysgwyr weithio'n annibynnol.
- Rhestrwch ffyrdd o arbed ynni a'u rhestru yn ôl yr effaith fwyaf i'r lleiaf.

## Gweithgaredd dilynol/estyniad

Edrychwch ar ein:

- Cynllun gweithgaredd – Arbedwyr ynni
- Cynllun gweithgaredd – Cyfrifydd storio carbon
- Cynllun gweithgaredd - Mawndiroedd, carbon a newid yn yr hinsawdd
- Ewch ar ymweliad safle â safle sy'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Darganfod mwy am waith Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ar **www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**Cyfoeth Naturiol Cymru/Newid hinsawdd**

**Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth neu ddata?**

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk  0300 065 3000**



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**